# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018

Amser: 09.00 - 14.30

# WRB(17)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd: | Y Gwir Anrhydeddus y Fonesig Dawn Primarolo (Cadeirydd)<br>Ronnie Alexander<br>Trevor Reaney<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts |
| Swyddogion: | Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Matthew Richards, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol<br>John Chick, Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau<br>Rebecca Hardwicke, Partner Busnes Adnoddau Dynol yr Aelodau<br>Martin Jennings, Arweinydd y Tîm Ymchwil<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu |
| Staff y Pwyllgor: | Sian Giddins, Clerc dros dro<br>Lowri Jones, Dirprwy Glerc dros dro |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfod.

1.2. Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2018.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion y cyfarfod ar 24 Mai 2018.

BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

## 2 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad: Cwmpas yr adolygiad

2.1. Trafododd y Bwrdd gwmpas adolygiad y Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad a chytunodd ar y canlynol:

- y darpariaethau yn y Penderfyniad y gallai fod angen rhoi sylw arbennig iddynt yn ystod yr adolygiad;
- sut gallai ddymuno grwpio'r materion a godwyd i'w hystyried;
- trafod y dulliau mwyaf priodol o ymgysylltu â rhanddeiliaid fesul achos.

2.2. Cytunodd y Bwrdd i drafod goblygiadau rhaglen y Comisiwn ar gyfer diwygio'r Cynulliad i'r Penderfyniad pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

2.3. Cadarnhaodd y Bwrdd ei fwriad i gyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad flwyddyn cyn yr etholiad cyffredinol.

2.4. Cytunodd y Bwrdd i drafod rhaglen waith fanylach ar gyfer yr adolygiad yn ei gyfarfod nesaf.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i baratoi rhaglen waith fanwl i'r Bwrdd ei drafod yn ei gyfarfod nesaf.

## 3 Eitem i'w thrafod: Effaith newid Arweinydd ar staff cymorth grŵp

3.1. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y tribiwnlys cyflogaeth presennol.

## 4 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Treuliau eithriadol: Trafod canllawiau a ffurflen gais

4.1. Cytunodd y Bwrdd i dreialu ffurflen gais newydd i'r Aelodau a hoffai wneud cais am dreuliau eithriadol o dan adran 2.4 o'r Penderfyniad.

**Camau gweithredu:**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- cyhoeddi'r ffurflen gais;
- monitro unrhyw adborth a geir am y ffurflen.

## 5 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Trafod Adroddiad Blynyddol drafft y Bwrdd Taliadau 2017–18

5.1. Trafododd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol drafft y Bwrdd Taliadau 2017-18 ac, yn amodol ar fân newidiadau, cytunodd i gyhoeddi'r adroddiad maes o law.

**Camau gweithredu:**

Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn:

- adlewyrchu'r newidiadau y gofynnodd y Bwrdd amdanynt yn yr adroddiad;
- paratoi'r adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi.

## 6 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Llywodraethiant Cynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6.1. Cytunodd y Bwrdd i sefydlu corff dynodedig a fyddai'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran staff cymorth.

6.2. Hefyd, cytunodd y Bwrdd ar y canlynol:
- byddai'r corff yn cynnwys y Pennaeth Pensiynau a chynrychiolydd o'r Bwrdd a'r Comisiwn;
- a dylai gyfarfod yn flynyddol.

**Cam gweithredu:**

Yr ysgrifenyddiaeth i sefydlu'r corff ac i hysbysu'r Bwrdd am ei weithgareddau.

## 7 Papur(au) i'w nodi

7.1. Nododd y Bwrdd:
- yr ohebiaeth gan y Grŵp Llafur a chytunodd i ymateb i'r materion a godwyd;
- adroddiad y datganiad a chanlyniadau'r arolwg Urddas a Pharch.

**Cam gweithredu:**

Y Bwrdd i ymateb i'r Grŵp Llafur.